



## Cylchlythyr Diogelwch Haf 2016/ Summer 2016 Safety Newsletter

1. Mae parcio wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn a mesurau wedi eu cymryd i geisio hyrwyddo diogelwch. Mae'r heddlu yn ymweld â'r ysgol yn rheoliaidd ac yn monitro y sefyllfa. Diolch am eich cydweithrediad. Yr ydym yn cysylltu yn syth os oes ceir yn parcio yn anghyfrifol.
2. Mae gwell defnydd o'r drefn un-ffordd( Ffordd Ty Du ac i lawr Ffordd Capel Coch) a'r taxis wedi trafod sut i wella y system o ollwng a hebrwng plant yn ddiogel. Mae nifer o blant yn cerdded i'r ysgol er mwyn lleihau traffig neu o leiaf yn cerdded o'r stryd fawr.

**Rhieni:** Gofynnir yn garedig i chi sicrhau eich bod yn :-

1. Cyrraedd yr ysgol ar amser fel nad oes angen cymaint o rieni i y tu mewn yn yr adeilad- mae drysau yn cael eu hagor gan blant a rhieni yn achosi risg uchel i ddiogelwch. Mae arwyddion newydd ar y drws yn hysbysu rhieni i beidio â defnyddio drysau eraill o gwmpas yr ysgol ac i atgoffa disgyblion i beidio ag agor y drysau i ymwelwyr.

2 Gollwng eich plant ar y buarth ac yna eu gadael yng ngofal staff- nid oes angen i rieni aros wrth y giât yn y bore. Bydd yn hyn yn ei gwneud yn haws i staff reoli y giât.

**Materion Diogelwch Ychwanegol:**

**Nid oes caniatad i rieni ar safle yr ysgol cyn 2.35yh yn y prynhawn- mae hyn oherwydd rhesymau diogelwch.**

**Cŵn-** ni chaniateir cŵn ar dir yr ysgol a gofynnir yn garedig i rieni beidio â chlymu cŵn wrth giât yr ysgol. Mae hyn yn lleihau risg o ddamweiniau ac yn sicrhau nad oes pryder i blant sy'n ofni cŵn.

**Goruchwylio**

Mae'n hanfodol nad yw plant yn cael rhedeg i lawr yr allt ar ddiwedd y dydd- gall hyn achosi damwain ac mae'n beryglus i yrrwyr ar y ffordd. Bydd y plant yn cael eu dysgu sut i gerdded yn y 'trac cerdded' a gofynnwn i rieni ddangos esiampl yn hyn o beth.

Mae croeso i chi fel rhieni gysylltu gyda'r ysgol os oes materion diogelwch yn achosi pryder.

**Diolch yn fawr am eich cyd-weithrediad.**

